**Cyngor Cymuned Y Bontnewydd**
**COFNODION CYFARFOD MISOL HYDREF 2020**
1 Hydref 2020 7.00- cyfarfod o bell drwy gyfrwng fideo

**PRESENNOL:**

**Cynghorwyr:** Gruff Williams, Erddyn Davies, Dafydd Iwan, Math Williams, Mirain Llwyd Owen, Huw Orwig

**Cadeirio:** Wynn Roberts

**Clerc:** Huw Llwyd Rowlands

## 1. YMDDIHEURIADAU

Emyr Williams, Geraint Strello, Dafydd Iwan

## 2. DATGAN DIDDORDEB/BUDDIANT PERSONOL

Datganodd y Cynghorydd Erddyn Davies, y Cynghorydd Gruffudd Williams a'r Cynghorydd Peter Garlick fuddiant yn eitem oedd yn rhagfarnu yn eitem 4, les Cae Stanley, oherwydd eu cysylltiad â Chlwb Pêl-droed Bontnewydd, a gadawodd y Cynghorydd Peter Garlick yr ystafell

## 3. CADARNHAU COFNODION

Cadarnhawyd cofnodion 3 Medi 2020

Cynnig: Mirain Llwyd Owen

Eilio: Gruff Williams

## 4. TRAFOD LES CAE STANLEY EFO CADEIRYDD CLWB PÊL-DROED BONTNEWYDD, CHRIS GARLICK

Mynychodd Cadeirydd newydd Clwb Pêl-droed Bontnewydd, Chris Garlick y cyfarfod.

Mae gan y Clwb Pêl-droed les ar ran o Gae Stanley, Bontnewydd, ble mae'r cynwysyddion sy'n cael eu defnyddio fel ystafelloedd newid wedi eu lleoli. Mae gweddill y cae o dan reolaeth a pherchnogaeth Cyngor Cymuned Y Bontnewydd

Mae'r les ar y darn o'r cae sy'n cynnwys y cynwysyddion wedi dod i ben, ond yn parhau ar yr un telerau a gytunwyd yn wreiddiol os nad oes yna gytundeb yn wahanol.

Eglurodd Chris Garlick yr hoffai'r Clwb Pêl-droed ymestyn y les fel bod ganddynt les dros yr holl gae am gyfnod o 25 mlynedd. Byddai ymestyn y les dros yr holl gae yn eu rhoi mewn safle gwell i fedru datblygu'r cae a'r clwb Pêl-droed, ac i wneud ceisiadau am grantiau. Hoffent ddringo yn haenau Cymdeithas Pêl-droed Cymru a byddai hynny'n golygu datblygu'r cae i'r safonau perthnasol, e.e. drwy osod concrid o gwmpas y cae, adeiladu stand ar gyfer gwylwyr a thoiledau i'r cyhoedd.

Doedd y Clwb Pêl-droed ddim am rwystro eraill rhag defnyddio'r cae, ond fel yr oedd y sefyllfa ar hyn o bryd, y Clwb oedd yn cynnal a chadw'r cae ond gallai unrhyw un arall ei ddefnyddio. Roeddent yn hapus i'r cae bach barhau i fod at ddefnydd y gymuned. Roeddent hefyd yn fodlon fod y les yn cynnwys telerau ble bod angen caniatâd gan y Cyngor Cymuned cyn gwneud unrhyw newidiadau strwythurol i'r cae, e.e. gosod llain goncrid.

Cytunwyd mewn egwyddor i roi les am gyfnod o 25 mlynedd i Glwb Pêl-droed Bontnewydd, ond byddai angen cytuno ar fanylion ac union delerau'r les, a phwy fyddai'n talu am y gwaith cyfreithiol.

Cynnig: Huw Orwig

Eilio: Mirain Llwyd Owen

## 5. MATERION SEFYDLOG

### 5.1 Adroddiad gan y Cynghorydd Peter Garlick

Adroddodd y Cynghorydd Peter Garlick y gall y bydd y gwaith o ail-wynebu'r ffordd o gylchfan Glan Beuno hyd at swyddfeydd Age Cymru yn cael ei wneud erbyn diwedd y flwyddyn, yn gynt na'r disgwyl, oherwydd nad yw'r ffordd yn cyrraedd y safonau digonol o ran ansawdd yr wyneb.

O ran goryrru yn Llanfaglan, mae Cyngor Gwynedd wedi danfon llythyr allan ddechrau mis Medi i drigolion lleol, yn nodi bwriad i osod twmpathau arafu traffig yn Llanfaglan

Fodd bynnag, mae'n debyg nad yw trigolion Llanfaglan yn gefnogol i'r twmpathau, ac roedd teimlad nad oedd y llythyr a ddanfonwyd allan yn gofyn yn ddigonol am farn trigolion lleol ar y cynllun.

Gofynnwyd i'r Clerc ysgrifennu at Gyngor Gwynedd er mwyn holi a fu yna unrhyw ymateb gam drigolion Llanfaglan i'r llythyr am y twmpathau.

### 5.2 Y Ganolfan, Bontnewydd

**Sefyllfa ariannol:**
Arian yn y banc 30/09/20: £875
Arian mewn llaw: £0
Arian yn ddyledus ers cyn y cyfnod clo: yoga £36 (dim am ail-ddechrau), karate £36 (ail-ddechrau Gwener yma, 2 Hydref), ac ysgol William Mathias £125
Dyled debid uniongyrchol nwy £451
Credyd debid uniongyrchol trydan £240
Incwm disgwyliedig y mis yma: tua £620
Gwariant disgwyliedig y mis yma: tua £435

**Gwaith cynnal a chadw a mân welliannau ym mis Medi**
Dim.
Toiledau genod (y rhai sy'n cadw cau/blocio): aros gair gan blymar.

**Gwaith ar y gweill**
Gosod croen plastic ar y bargoed (barge a fascia) a gwterydd newydd - dal i aros i'r contractiwr.

## 6. MATERION YN CODI O'R COFNODION

### 6.1 Camfa Tan Garreg, Llanfaglan

Mae Cyngor Gwynedd yn cytuno fod angen trwsio'r gamfa, ac yn bwriadu gosod giât yn ei lle, fydd yn rhoi mynediad diogel i ddefnyddwyr a hefyd yn diogelu na all anifeiliaid gael mynediad i'r ffordd. Bwriedir cysylltu â thrafod efo perchennog y tir cyn gwneud hyn.

### 6.2 Cyfethol Aelod

Ni chafwyd cais am etholiad, a gellir yn awr gosod hysbyseb am y sedd wag yn gofyn i'r rhai sydd efo diddordeb i roi gwybod i'r Clerc erbyn dydd Llun 2 Tachwedd 2020.

### 6.3 Lagwnau Ffordd Osgoi

Nid yw lagwnau ffordd osgoi Bontnewydd yn weithredol eto. Ni fyddant yn weithredol tan nes y bydd gwaith system ddraenio'r ffordd osgoi wëid ei orffen.

Bryd hynny, mi fyddant yn dal unrhyw orlifiant dŵr sy'n deillio o'r ffordd newydd.

Nodwyd hefyd fod dau o weithwyr Jones Bros yn gwrtais ac yn gymhorthgar i drigolion lleol, ar y ffordd rhwng Bontnewydd a Llanfaglan ac ar Lôn Eifion, a gofynnwyd i'r Clerc ysgrifennu at Jones Bros gan nodi hyn.

### 6.4 Gwasanaeth Torri Gwair Cyngor Gwynedd

Doedd dim diddordeb cyffredinol i gefnogi syniad Cyngor Cymuned Llandwrog fod cynghorau cymuned lleol yn cydweithio efo'i gilydd i dorri gwair, yn hytrach na defnyddio gwasanaeth Cyngor Gwynedd.

Serch hynny, roedd Cyngor Gwynedd wedi nodi yn y gorffennol y byddent yn cynnal trafodaethau pellach ar hyn, ond chlywyd unrhyw beth pellach ar y mater.

Gofynnwyd i'r Clerc ysgrifennu at Gyngor Gwynedd er mwyn cael diweddariad ar y sefyllfa.

### 6.5 Ffordd Penybryn a Rhos Bach

Ymatebodd Cyngor Gwynedd i'r pryder fod cerbydau yn goryrru ar hyd ffordd Penybryn a Rhos Bach, gan ddweud y byddai'n rhaid casglu tystiolaeth o unrhyw oryrru, e.e. drwy osod stribedi ar y ffordd, cyn penderfynu a fyddai'n briodol cymryd camau i gyflwyno mesuriadau tawelu traffig ai peidio.

Fodd bynnag, er mwyn sicrhau fod y mesurau priodol yn cael eu gosod, (os o gwbl), ni fyddai'n briodol cynnal asesiad ar hyn o bryd gan fod gwaith y ffordd osgoi yn parhau, ac felly ni fyddai gwir sefyllfa'r traffig ar y ffordd yn cael ei asesu.

Awgrymodd Cyngor Gwynedd gysylltu efo'r Heddlu fel cam cyntaf, os oedd yna wir bryder am oryrru, a byddai Cyngor Gwynedd yn fodlon adolygu'r sefyllfa unwaith y byddai patrymau traffig wedi eu sefydlu yn dilyn cwblhau gwaith y ffordd osgoi.

**6.6 Hysbysfwrdd Llanfaglan**

Nododd y Cynghorydd Peter Garlick nad oedd neb yn cadw golwg rheolaidd ar y sedd, yr hysbysfwrdd a'r bocsys blodau ym Mharc y Plwyf, Llanfaglan.

Mae cefn yr hysbysfwrdd wedi dirywio oherwydd y tywydd, ac fe gytunodd y Cynghorydd Geraint Strello a'r Cynghorydd Erddyn Davies i roi cefn newydd i'r hysbysfwrdd a chot o farnish iddo.

## 7. MATERION ARIANNOL

**7.1 Cyflog a Chostau Clerc Medi 2020**

£234.00 - £46.80 treth incwm = £187.20 + costau swyddfa £45.00

**Cyflog** £232.20 y mis
**TWE** £46.80 y mis

**Cyfanswm Gros** £279.00 y mis
**Cyfanswm Net** £232.20 y mis

**7.2** Anfoneb Swyddfa Archwilio Cymru – archwilio allanol 2018/19 £320.55

**7.3** Anfoneb Wyn Williams rhif 2017 glanhau cysgodfanau Rhagfyr 2019 – Gorffennaf 2020 £90.00

**7.4** PWLB – Taliad Uniongyrchol o'r banc - £406.35

**7.5** Cymeradwyo Ffurflen Flynyddol 2018/19 yn dilyn archwiliad allanol

**7.6** Derbyn tâl Parc y Plwyf £25.00

**7.7** Balans yn y banc 26 Medi 2020 £36,241.88.

## 8. CYNLLUNIO A MATERION CYFREITHIOL ERAILL

Dim

## 9. GOHEBIAETH

Dim

## 10. MATERION ERAILL

### 10.1 Cais am gefnogaeth i benderfyniad Cyngor Tref Nefyn - atal tai rhag mynd o afael trigolion lleol.

Cafwyd cais gan Gyngor Tref Nefyn am gefnogaeth i'w penderfyniad i ddwyn pwysau ar Gyngor Gywnedd a Llywodraeth Cymru I atal tai rhag mynd o afael trigolion lleol.

Rhoddodd y Cynghorydd Dafydd Iwan y cynnig canlynol ymlaen:-

"Ein bod fel Cyngor Cymuned Bontnewydd yn cefnogi llythyr Cyngor Tref Nefyn, gyda'r sylwadau a ganlyn:

*Mae angen dwyn pwysau ar Gyngor Gwynedd a llywodraeth Cymru i weithredu ar y materion pwysig yma ar fyrder.

*Mae rhai o'r cynigion yn faterion y gall Cyngor Gwynedd weithredu arnynt, rhai y gall Llywodraeth Cymru eu gweithredu, a rhai sydd angen newid yn y gyfraith i'w gweithredu.

*Cefnogwn yr alwad i roi mwy o reolaeth i'r Awdurdodau lleol, a nhw ddylai fesur y galw lleol, a phenderfynu pa fath o dai (fforddiadwy, henoed, fflatiau, anabl ac ati) sydd eu hangen.

*Ystyriwn bod newid i'r Gorchymyn Dosbarthiadau Defnydd yn hanfodol, i sicrhau bod angen caniatâd cynllunio i newid defnydd o gartref parhaol i ail-gartref.

*Mae'n bwysig cydnabod hefyd rôl ganolog Cymdeithasau Tai a chyrff fel Cynefin ac Adra, a chredwn y dylai'r rhain brynu tai gwag o'r stoc bresennol yn ogystal â chodi tai newydd fel tai cymdeithasol.

Cytunwyd yn unfrydol i'r cynnig uchod.

Cynnig: Dafydd Iwan

Eilio: Huw Orwig

## 10.2 Parcio y tu allan i Ysgol Bontnewydd

Nodwyd fod yna nifer o geir yn parcio y tu allan i Ysgol Bontnewydd ar ddechrau ac ar ddiwedd pob diwrnod ysgol. Mae’r parcio’n aml yn golygu ei bod hi’n anodd i gerbydau fynd heibio, a mynegwyd pryder am allu cerbydau argyfwng i fynd heibio’n ddiogel.

Gofynnwyd i’r Clerc ysgrifennu at yr ysgol fel bod y Pennaeth yn cael gwybod a chodi ymwybyddiaeth efo rhieni am y broblem.

Yn dilyn ymddiswyddiad y Swyddog Lolipop ym Montnewydd, mae Cyngor Gwynedd wedi cytuno i barhau efo’r swydd ac mae hysbyseb wedi ei roi yn Ysgol Bontnewydd.

## 10.3 Cymorth Covid dros y Gaeaf

Gofynnodd y Cynghorydd Peter Garlick beth fedrai’r Cyngor Cymuned ei wneud o ran rhoi cymorth lleol oherwydd COVID-19, dros gyfnod y gaeaf.

Deallir fod Age Cymru yn darparu bwydydd poeth yn lleol, ac fe ofynnwyd i bawb gynnig syniadau erbyn cyfarfod mis Tachwedd.